



Cylchlythyr Cymru Can: Diwylliant a'r laith Gymraeg



Yn y rhifyn hwn

- *Achub dyfodol diwylliant: Cymru Can*
 - *Gweithio Gyda'n Gilydd dros Ddiwylliant: Canllaw i gyrff cyhoeddus sy'n gweithio gyda Gweithwyr Llawrydd*
 - *Cwrdd â'n Gweithiwr Llawrydd Preswyl - Tracy Breathnach*
 - *Rhaid i genedlaethau'r dyfodol fod yn ganolog i dymor nesaf y Senedd*
 - *At eich sylw hefyd...*
-

Llywiwch drwy bob adran drwy'r botwm cynnwys (gwaelod dde'r Sway).

Achub dyfodol diwylliant: Cymru Can

O'r straeon rydyn ni'n eu hadrodd a'r lleoedd rydyn ni'n eu trysori i'r ieithoedd rydyn ni'n eu siarad, mae diwylliant a phrofiad a rennir yn ein clymu ni at ein gilydd fel cenedl.

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae llesiant diwylliannol yr un mor bwysig â llesiant amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, gan gydnabod ei rôl hanfodol wrth wella iechyd a chryfhau cymunedau.

Eto i gyd, [mae'r sector diwylliannol mewn argyfwng](#). Rydym mewn perygl o greu Cymru "dwy haen", lle mae mynediad at ddiwylliant yn dibynnu ar ble rydych chi'n byw neu'r hyn rydych chi'n ei ennill.

Mae cyllid cyhoeddus ar gyfer diwylliant wedi gostwng 17% ers 2015, er gwaethaf y ffaith bod y sector yn cyfrannu £1.64 biliwn i'r economi bob blwyddyn ac yn cefnogi 37,000 o swyddi. Mae hefyd yn cynhyrchu o leiaf [£588 miliwn yn flynyddol mewn buddion iechyd a llesiant](#) ledled Cymru.



Mae ein [Deddf Diwylliant i Gymru: Papur Gwyrdd](#), a gyhoeddwyd heddiw (dydd Mercher 25 Chwefror), yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i gyflwyno **Deddf Diwylliant** bwrpasol — diogelu diwylliant ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn hytrach na'i drin fel ychwanegiad dewisol.

Wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â The Audience Agency, mae'r Papur Gwyrdd yn nodi sut mae darpariaeth sy'n crebachu, ansicrwydd swyddi a mynediad llai at weithgarwch diwylliannol yn gadael cymunedau â llai o gyfleoedd i ymgysylltu, dysgu a chymryd rhan.

Mae diwylliant wedi'i blethu i fywyd bob dydd, ond heb amddiffyniad cyfreithiol mae'n parhau i fod yn agored i benderfyniadau tymor byr a phwysau ariannu.





Mae saith o bob deg o bobl yng Nghymru yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol. Nid yw hwn yn bryder niche - ac nid yw Bil Diwylliant yn syniad newydd. Mae'r Alban ac Iwerddon wedi cryfhau diwylliant trwy strategaethau cenedlaethol a chyrrff ymroddedig, tra bod Cynllun Hawliau Diwylliannol Sbaen yn ymgorffori diwylliant mewn cyfraith a llywodraethu.

Rydym yn eich gwahodd i [ymateb i ganfyddiadau a chynigion y Papur Gwyrdd](#) i helpu i sicrhau bod Bil Diwylliant yn y dyfodol yn darparu amddiffyniad a blaenoriaeth ystyrion i ddiwylliant ledled Cymru.

Mae pawb - boed yn byw heddiw neu'n cael eu geni yfory - yn haeddu Cymru lle gallant ffynnu, lle mae cymunedau'n ffynnu, a lle mae ein hunaniaeth a'n traddodiadau cyffredin yn cael eu gwerthfawrogi a'u gwarchod.

Mae diwylliant yn ganolog i'r weledigaeth honno.

[Darllenwch Ddeddf Diwylliant i Gymru: Papur Gwyrdd](#) a darganfod mwy am sut rydym yn atgyfnerthu effaith gadarnhaol lles diwylliannol trwy ein cenhadaeth Diwylliant a'r laith Gymraeg [ar ein gwefan](#).

Gweithio Gyda'n Gilydd dros Ddiwylliant: Canllaw i gyrff cyhoeddus sy'n gweithio gyda Gweithwyr Llawrydd

O argyfyngau hinsawdd a natur, i ostyngiad mewn ymddiriedaeth yn ein sefydliadau cyhoeddus, mae angen atebion creadigol arnom i drawsnewid sut rydym yn ymateb i heriau presennol a rhai'r dyfodol.

Mae gweithwyr llawrydd diwylliannol yn hanfodol i ecosystem greadigol Cymru a gallant ddod ag arloesedd, hyblygrwydd ac ymgysylltiad cymunedol i'r sector cyhoeddus.

Dyna pam, gyda chefnogaeth gan Addo, rydym wedi datblygu [Gweithio Gyda'n Gilydd dros Ddiwylliant: Canllaw i Gyrff Cyhoeddus sy'n Gweithio gyda Gweithwyr Llawrydd](#).



1 - [Artist mewn Gwasanaeth - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf](#)

Gan gynnwys egwyddorion arweiniol a manteision cydweithio â gweithwyr llawrydd, mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys enghreifftiau o arfer gorau a chamau ymarferol y gall y sector cyhoeddus eu cymryd i gysylltu â chymunedau amrywiol, gwella eu gwasanaethau a chryfhau cydlyniant cymdeithasol.

O [artistiaid awdurdodau lleol mewn gwasanaeth](#), i [siarteri Celfyddydau ac Iechyd Byrddau Iechyd](#), gall pob corff cyhoeddus gynnwys gweithwyr llawrydd creadigol yn eu gwaith i wella sut maent yn ymgysylltu â chymunedau ac yn gwneud penderfyniadau sy'n gwella lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Darllenwch y canllawiau, gan gynnwys [canllaw cyflym](#) a [fersiwn hawdd ei ddeall](#), a dewch o hyd i ragor o wybodaeth am ein cenhadaeth Diwylliant a'r Iaith Gymraeg [ar ein gwefan](#).

“Rydym yn adeiladu pont rhwng dau fyd — y byd artistig a’r byd cymunedol — ac mae hynny’n gofyn am ymddiriedaeth.”

Krishnapriya Ramamoorthy

Paallam Arts CIC ac aelod o Hyb Amlddiwylliannol Gogledd Ddwyrain Cymru

Cwrdd â'n Gweithiwr Llawrydd Preswyl - Tracy Breathnach

I gefnogi ein gwaith cenhadol Diwylliant a'r Iaith Gymraeg, mae Tracy Breathnach wedi ymuno â'n tîm fel Gweithiwr Llawrydd Preswyl.

“Rwyf wrth fy modd yn gweithio gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru ar genhadaeth Diwylliant a’r Iaith Gymraeg dros y chwe mis nesaf. Rwyf wedi bod yn gefnogwr mawr o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol ers ei sefydlu yn 2015, yn dilyn ei gweithrediad a’i heffaith, ac edrychaf ymlaen at gysylltu ag eraill trwy ein fforwm diwylliant sydd ar ddod ym mis Mehefin.

Ers dros 20 mlynedd, rwyf wedi gweithio fel artist yn cyflwyno gwaith (perfformio ac ysgrifennu) ac fel rheolwr celfyddydau ac ymgynghorydd ar draws llawer o sefydliadau gan gynnwys celfyddydau a threftadaeth, Addysg Uwch ac Addysg Bellach, awdurdodau lleol a’r sector gwirfoddol.

Rhwng 2019 a 2025, gweithiais gyda [Rhwydwaith Celfyddydau, Iechyd a Llesiant Cymru](#) (WAHWN) fel gweithiwr llawrydd yn cefnogi cyrff cyhoeddus cenedlaethol, sefydliadau celfyddydol ac artistiaid llawrydd eraill. Yn y rôl hon, arweiniais [Sut Mae’n Mynd?](#), rhaglen arobryn i gefnogi lles artistiaid llawrydd, a rheolais y gynhadledd genedlaethol Celfyddydau, Iechyd a Llesiant, [Gwehyddu](#).”



Rhaid i genedlaethau'r dyfodol fod yn ganolog i dymor nesaf y Senedd

Ni fydd gan genedlaethau'r dyfodol bleidlais ym mis Mai - ni allwn ei gadael iddyn nhw ddatrys y problemau y gallwn eu trwsio heddiw.

Dyma'r neges a roddodd y Comisiynydd a'i gydweithwyr i aelodau Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd yn ein tystiolaeth graffu flynyddol. [Rhybuddiodd na ellir trin anghenion cenedlaethau'r dyfodol fel ôl-ystyriaeth](#) wrth i ni agosáu at etholiadau'r Senedd a thu hwnt.

Mae Cymru'n wynebu heriau brys a chydgysylltiedig iawn: argyfwng costau byw, anghydraddoldebau sydd wedi hen ymwreiddio, pwysau cynyddol ar y GIG, ac argyfyngau hinsawdd a natur sy'n cyflymu.

Wrth i bleidiau ysgrifennu eu manifestos a pharatoi i ddod yn aelodau etholedig, rhaid iddynt gofio eu bod yn gwneud penderfyniadau dros y tair miliwn o bobl sy'n byw yng Nghymru heddiw, a'r 360,000 o bobl a fydd yn cael eu geni yng Nghymru dros yr 20 mlynedd nesaf.





2 - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol - 9 Chwefror 2026

Bydd penderfyniadau a wneir yn nhymor nesaf y Senedd yn llunio bywydau a chyfleoedd ein plant, ein hwyrion a'r rhai nad ydynt wedi'u geni eto, ac ni allwn adael i gylchoedd tymor byr ein hatal rhag canolbwyntio ar ddyfodol hirdymor Cymru.

Mae [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025](#) yn amlinellu sut y gall ein pleidiau gwleidyddol ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd presennol a'r rhai yn y dyfodol, ac yn ystod fy nhystiolaeth galwais ar y Senedd nesaf i ystyried sefydlu Pwyllgor ar gyfer y Dyfodol i gryfhau craffu gwleidyddol hirdymor ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

At eich sylw hefyd...

Newid - Academi Newidwyr Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae newid go iawn, parhaol yn digwydd pan fyddwn yn buddsoddi mewn pobl ifanc ac yn chwyddo eu lleisiau.

Mewn partneriaeth â'n tîm, mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr ac Unloc wedi lansio **Newid - Academi Ysgogwyr Cenedlaethau'r Dyfodol** i helpu pobl ifanc (16-25 oed) ledled Cymru i arwain newid a llunio dyfodol cynaliadwy, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r rhaglen beilot yn cynnwys hyfforddiant ynghylch arweinyddiaeth, meddwl beirniadol a chyfiawnder cymdeithasol, ac mae'n canolbwyntio ar brosiectau newidwyr sydd wedi'u cynllunio i gyflawni newid lleol a chenedlaethol, mewn ymateb i rai o'r heriau mwyaf sy'n wynebu pobl ifanc.

Dysgwch fwy ar [wefan y Brifysgol Agored](#).



3 - [Newid - Academi Ysgogwyr Cenedlaethau'r Dyfodol](#)



4 - [Degawd o Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru](#)

Degawd o Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru – erthygl Big Issue

Siaradon ni â'r Big Issue ar 10 mlynedd ers i Gymru benodi Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru a thrawsnewid meddwl hirdymor ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol "o syniad beiddgar i realiti cyfreithiol".

Darllenwch yr erthygl lawn [ar eu gwefan](#).

Blog - Mae Hawl i Brynu Cymunedol yn ganolog i gryfhau seilwaith cymdeithasol

Fe [wnaethon ni alw am Fil Hawl Cymunedol i Brynu](#) yn ein Hadroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025, gan rybuddio y gallai tafarndai, parciau, adeiladau crefyddol, neuaddau pentref ac adeiladau treftadaeth annwyl gael eu colli am byth oni bai bod cymunedau'n cael cyfle teg i'w hachub.

Mae blog Adeiladu Ymddiriedolaeth Cymunedau yn canolbwyntio ar pam mae hawl gymunedol i brynu yn ganolog i gryfhau seilwaith cymdeithasol, atal unigrwydd a hyrwyddo atal i wella iechyd a lles.

Darllenwch y blog [ar eu gwefan](#).



5 - [Rhestrau o Dreftadaeth Fyw yn y DU](#)



6 - [Cynefin: A Creative Health Review for Wales network](#)

Rhestrau o Dreftadaeth Fyw yn y DU

A oes traddodiadau yn eich cymuned yr hoffech eu gweld ar restr treftadaeth fyw Cymru?

Am y tro cyntaf, mae'r DU a Chymru yn creu rhestr genedlaethol o arferion diwylliannol byw, gan sicrhau bod traddodiadau a sgiliau ein cymunedau yn cael eu cydnabod a'u dathlu'n ffurfiol.

Dysgwch fwy am y [Rhestrau o Dreftadaeth Fyw yn y DU](#), gan gynnwys sut i fynegi diddordeb mewn cyfrannu [drwy wefan UNESCO](#).

Mae Amgueddfa Cymru yn gweithredu fel Hwb Cymunedol a gall gefnogi gyda cheisiadau – e-bostiwch livingheritage@museumwales.ac.uk am ragor o gymorth a chynghor.

Cynefin: Adolygiad Iechyd Creadigol i Gymru

Wedi'i greu fel rhan o Wobrau Rhwydwaith Polisi Co-Lab, mae rhwydwaith [Cynefin: Adolygiad Iechyd Creadigol i Gymru](#), yn datblygu strategaeth iechyd greadigol newydd i Gymru, gan integreiddio diwylliant yn fwy llawn i bolisi iechyd a gofal cymdeithasol.

Dan arweiniad Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, mewn partneriaeth â'n tîm, Rhwydwaith Celfyddydau, Iechyd a Llesiant Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Senedd Cymru, bydd Cynefin yn cyd-greu ac yn profi polisi yn seiliedig ar iechyd creadigol, gyda phwyslais ar dwf cynaliadwy, atal a lles cymunedol.

Dysgwch fwy am Wobrau'r Rhwydwaith ar [wefan WAHWN](#).

Cysylltwch â ni

Am ddal i fyny ar rifynnau blaenorol y cylchlythyr? Dewch o hyd iddynt ar ein gwefan [yma](#).

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni trwy:

cenedlaethaurdyfodol.cymru

cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru

@futuregencymru

